Dogfen ir Cyhoedd

# R H A G L E N

## BWRDD GWASANAETHAU LLEOL GWYNEDD A MÔN

## 17 MEHEFIN, 2016

# A G E N D A

1 **ANGLESEY AND GWYNEDD LOCAL SERVICES BOARD** (Pages 1 - 2)

Partneriaeth Gwynedd ac Ynys Môn
Anglesey and Gwynedd Partnership

## BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS AR GYFER ARDALOEDD GWYNEDD AS YNYS MÔN

## PUBLIC SERVICES BOARD FOR THE AREAS OF ANGLESEY AND GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **10:00yb – 10.30yb: Aelodau Statudol**<br>**10.30yb – 12.30yp: Aelodau Statudol a Chyfrangowyr Gwadd**<br>**17/06/2016**<br>**Ty Menai, Parc Menai, Bangor** | **10:00am – 10.30am: Statutory Members**<br>**10.30am – 12.30pm: Statutory Members and Invited Participants**<br>**17/06/2016**<br>**Ty Menai, Parc Menai, Bangor** |

**RHAGLEN** **AGENDA**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **10.00 – 10.30**<br>**1.** | Cyfarfod Aelodau Statudol BGC Gwynedd a BGC Ynys Môn | Statutory Members meeting for Anglesey PSB and Gwynedd PSB | |
| **2.** | Cofnodion o’r cyfarfodydd a gynhaliwyd 24 Mai, 2016 – **i’w cymeradwyo.** | Minutes of the meetings held on 24 May, 2016 – **for approval.** | PDF Cofndion Bwrdd Gwasanaethau Cyhoe<br>PDF Minutes of Anglesey Public Services Board<br>PDF Cofnodion Bwrdd Gwasanaethau Cyhoe<br>PDF Minutes of Gwynedd Public Services Board |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | |
| **10.30 – 12.30**<br><br>**3.** | Cylch Gorchwyl Drafft | Draft Terms of Reference | Cylch Gorchwyl BGC_CymraegDRAFF<br><br>PSB Terms of Reference_English- D |
| **4.** | Aelodaeth | Membership | |
| **5.** | Ardaloedd cymunedol ar gyfer yr Asesiad Llesiant – trafodaeth a chytundeb | Community areas for Well-being Assessment – for discussion and agreement | Ardaloedd ar gyfer yr Asesiad Llesiant Yr<br><br>Ardaloedd Asesiad Llesiant Gwynedd.pdf |
| **6.** | Asesiad Llesiant – diweddariad | Wellbeing Assessment - update | |
| **7.** | Cadarnhau trefniadau'r cyfarfod nesaf:<br>**23 Medi, 2016**<br>Ty Menai, Parc Menai | Confirm arrangements of next meeting:<br>**23 September, 2016**<br>Ty Menai, Parc Menai | |

Partneriaeth Gwynedd ac Ynys Môn
Anglesey and Gwynedd Partnership

**BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS YNYS MÔN A GWYNEDD**

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Mehefin, 2016**
**am 10:30am yn Nhŷ Menai, Parc Menai, Bangor**

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Ffion Johnstone, Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr **(Cadeirydd)**<br>Y Cyng. Ieuan Williams, Cyngor Sir Ynys Môn **(Is-gadeirydd)**;<br>Iestyn Davies, Heddlu Gogledd Cymru;<br>Y Cyng. Dyfed Edwards, Cyngor Gwynedd;<br>Stephen Hughes, Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru;<br>Andy Jones, Gwasanaeth Prawf Cymru;<br>Dr Gwynne Jones, Cyngor Sir Ynys Môn<br>Morag Olsen, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr;<br>Sioned Rees, Llywodraeth Cymru;<br>Simon Smith, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru<br>Dilwyn Williams, Cyngor Gwynedd,<br>Sian Williams, Cyfoeth Naturiol Cymru |
| **Yn mynychu:** | Janet Roberts, Cyngor Gwynedd<br>Llio Johnson, Cyngor Gwynedd<br>Rhian Bayley-Hughes, Cyngor Gwynedd<br>Nia Williams, Cyfoeth Naturiol Cymru<br>Euros Jones, Cyfoeth Naturiol Cymru<br>Shan Morris, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru |

## 1. CROESO

Croesawyd yr aelodau i gyfarfod cyntaf Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ynys Môn a Gwynedd.  Cynigiodd aelodau'r bwrdd eu henwebiadau ar gyfer rolau'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd.

**PENDERFYNWYD**

- Enwebwyd Ffion Johnstone yn Gadeirydd BGC Ynys Môn a Gwynedd ac enwebwyd y Cyng. Ieuan Williams yn is-gadeirydd, derbyniodd y ddau aelod eu rolau.

## 2. COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 24 MAI, 2016

Cadarnhawyd bod cofnodion cyfarfod y Bwrdd Gwasanaethau Lleol a gynhaliwyd ar 24 Mai, 2016 yn gofnod cywir o'r trafodaethau; fodd bynnag, nodwyd yn dilyn ail gyfarfod o Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ar 17 Mehefin, 2016 bod y Byrddau yn awyddus i gydweithio er mwyn atal dyblygu, dangos ymrwymiad llawn o'r dechrau ac oherwydd bod y ddwy ardal mor debyg yn eu natur.  Mae cydweithio fel Bwrdd ar y cyd yn hanfodol er mwyn datblygu'r Cynllun Llesiant a chynnal asesiad llesiant ac yn fwy cynhwysol i bartneriaid.

## 3. CYLCH GORCHWYL DRAFFT

Darllenodd aelodau'r bwrdd drwy'r Cylch Gorchwyl a nodwyd y pwyntiau isod:

- Atodiad A: pwynt 7; dylai ddarllen; *Cytunir ar yr adnodd sydd ei angen ar gyfer gweithredu'r amcanion cytunedig gan yr holl bartneriaid statudol unwaith fydd yr amcanion wedi cael eu gosod*.
- 4.5 - i gynnwys paragraff yn cadarnhau fod rhaid i bob is-grŵp adrodd i'r BGC.
- 1.5 - angen ei gryfhau;
- 3.5 - i ddarllen: *"i'r graddau y mae'r gyfraith yn ein caniatáu, bydd aelodau'r Bwrdd yn aelodau cyfartal o'r Bwrdd. Byddwn yn trin pob aelod o'r Bwrdd fel aelod cyfartal."*
- 3.4 - newid CHTh Gogledd Cymru i **SWYDDFA** Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd.
- 3.4 - newid Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru i **GYNRYCHIOLYDD** Heddlu Gogledd Cymru .
- 4.1 - i gynnwys brawddeg yn adlewyrchu y dylai'r Bwrdd gyfarfod fel Byrddau ar wahân ar ôl etholiadau ac ail-gytuno ar gydweithio / uno fel bo'n briodol.
- 4.6 - i ddarllen "*Dylai pob is-grŵp BGC gynnwys un aelod neu **DDIRPRWY**'r Bwrdd*".
- 7.2 - cynnwys y bydd cyfarfodydd yn agored i'r cyhoedd **AR ADEGAU PRIODOL** megis Cyfarfodydd Cyffredinol Blynyddol.

**PENDERFYNWYD**

- Cadw 'Cylch Gorchwyl' fel eitem sefydlog ar raglenni yn y dyfodol fel bo'n briodol.

## 4. AELODAETH

Cytunodd aelodau BGC i estyn gwahoddiad i asiantaethau/sefydliadau eraill fod yn aelodau o'r BGC; sef:

- Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri;
- Iechyd Cyhoeddus Cymru;
- Sector Tai;
- Addysg Bellach ac Addysg Uwch.

**PENDERFYNWYD**

- Cytunodd aelodau i asesu aelodaeth tra byddai gwaith yn cael ei wneud ar yr asesiad llesiant. Llio, ar ran BGC, i wahodd yr asiantaethau/sefydliadau cytunedig i fynychu cyfarfodydd yn y dyfodol.

## 5. ARDALOEDD CYMUNEDOL AR GYFER ASESIAD LLESIANT

Cyflwynodd Llio Johnson adroddiad cynnydd i'r Bwrdd, a nodwyd y pwyntiau a ganlyn:

- Er diben cynnal asesiad llesiant lleol, byddai Ynys Môn yn cynnwys 6 Ardal Gymuned a byddai Gwynedd yn cynnwys 8 Ardal Gymuned.
- Byddai gwaith ymgysylltu ar yr asesiad llesiant yn cael ei gynnal yn ystod yr hydref.
- Roedd yr Uned Partneriaethau'n casglu gwybodaeth o ymgynghoriadau lleol yn dyddio o 2014.

**PENDERFYNWYD**

- Dylai ardaloedd cymunedol gael eu darlunio ar un map er mwyn arddangos cydweithio.
- Is-grŵp cyfathrebu i gyfarfod i baratoi cyfathrebiadau ar gyfer ymgysylltu ar yr asesiad llesiant.
- Aelodaeth is-grŵp cyfathrebu i'w rannu gydag aelodau BGC.

## 6. ASESIAD LLESIANT - diweddariad

Cyflwynodd Llio Johnson adroddiad cynnydd i'r Bwrdd ar waith y grŵp tasg a gorffen ar yr asesiad llesiant hyd yma.

**PENDERFYNWYD**

- Aelodau BGC i gyfarfod er mwyn derbyn diweddariad ar ddangosyddion / cynnydd data hyd yma - angen archwilio drwy ddefnyddio fideo gynadledda / *Skype* fel bo'n briodol.
- Cylchredeg adroddiad diweddaru i aelodau'r BGC yn aml er mwyn darparu'r diweddaraf iddynt o ran cynnydd / methodoleg ac ati.

## 7. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

**PENDERFYNWYD** nodi manylion y trefniadau a wnaed i gynnal cyfarfod nesaf BGC ar 23 Medi, 2016 am 10am yn Nhŷ Menai, Parc Menai, Bangor, Gwynedd.

Daeth y cyfarfod i ben am 12pm